



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig: Ymgynghoriad ar Hawliadau Pensiwn ar gyfer Diffoddwyr Tân Wrth Gefn 2023**

**Adran: Y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol**

**Gweinidog sy'n gyfrifol: Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn**

**Dyddiad dechrau: 14 Gorffennaf 2023**

**Cyfeiriad e-bost cyswllt: [fire@gov.wales](mailto:fire@gov.wales)**

## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

1. Mae ein cynigion yn ymdrin â dau fater ar wahân.
2. **Rhan 1** - yn nodi cynigion i ddarparu mynediad at bensynau diffoddwyr tân ar gyfer diffoddwyr tân y System ar Ddyletswydd yn ôl Galw (RDS) sydd â gwasanaeth rhwng 7 Ebrill 2000 a 5 Ebrill 2006 (i gynnwys mynediad sy'n ymwneud â gwasanaeth RDS cyn 2000).
3. Nid oedd gan ddiffoddwyr tân System ar Ddyletswydd yn ôl Galw yng Nghymru fynediad at gynllun pensiwn galwedigaethol nes i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 (Cynllun 2007) gael ei gyflwyno'n ôl-weithredol o 6 Ebrill 2006. Ar y pryd, ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwasanaeth RDS yn gynharach na mis Ebrill 2006.
4. Yn 2014, cyflwynodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â gweinyddiaethau eraill, addasiadau sylweddol i Gynllun 2007 i ddarparu mynediad at fuddion pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân RDS a oedd wedi'u cyflogi ar 1 Gorffennaf 2000 neu ar ôl hynny. Roedd hyn oherwydd dyfarniad gan Dŷ'r Arglwyddi (Matthews and others vs Kent Fire Authority and others)<sup>1</sup> a phenderfyniad dilynol gan driwlynys cyflogaeth a ddyfarnodd, o dan Reoliadau Gweithio Rhan Amser 2000, y dylid trin diffoddwyr tân RDS yn gyfartal â diffoddwyr tân rheolaidd amser cyfan o ran eu telerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys buddion pensiwn.
5. Cyflwynwyd trefniadau tebyg ar gyfer gweithwyr rhan amser mewn cynlluniau pensiwn eraill, ond yn 2018 heriwyd y rhain yn y Cynllun Pensiwn Barnwrol (O'Brien v Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) lle y dadleuodd cofiadur y dylai ei wasanaeth barnwrol rhan-amser cyfan fod yn bensynadwy, nid dim ond ei wasanaeth ar ôl 2000. Dyfarnodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU), (ar gyfeiriad oddi wrth y Goruchaf Lys) yn 2018, y dylid ôl-ddyddio hawliau pensiwn i gynnwys gwasanaeth cyn i Reoliadau Gweithio Rhan Amser 2000 gael eu cyflwyno.
6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau i gywiro'r sefyllfa ar gyfer diffoddwyr tân RDS. Bydd yn caniatáu i ddiffoddwyr tân cymwys ddewis prynu unrhyw ran neu'r cyfan o'u gwasanaeth blaenorol at ddibenion pensiwn. Bydd i hyn effaith ôl-weithredol yn unig; mae pob diffoddwr tân (gan gynnwys diffoddwyr tân RDS) bellach wedi'u cofrestru'n awtomatig mewn cynllun pensiwn galwedigaethol, er y gallant optio allan os ydynt yn dymuno.
7. **Rhan 2** - yn nodi cynigion i ddiwygio Gorchymyn Cynllun Digolledu Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i sicrhau bod y cynllun yn ymdrin yn deg â dyletswyddau diffoddwyr tân a gwmpesir gan gontractau eilaidd penodol, a bod y swm digolledu yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar wasanaeth llawn diffoddwr tân, nid gwasanaeth a gwmpesir gan gontract eilaidd yn unig.
8. Mae gan lawer o ddiffoddwyr tân contractau eilaidd i gyflawni dyletswyddau ymladd tân yn ôl galw yn ogystal â'u rôl fel diffoddwr tân amser cyfan o dan gontract cyflogaeth sylfaenol. O dan ddarpariaethau'r cynllun presennol, pe bai anaf yn digwydd a oedd i'w briodoli i'r dyletswyddau o dan y contract yn ôl galw yn unig, byddai buddion anafiadau yn seiliedig ar y tâl a'r gwasanaeth o dan yr ail gontract yn ôl galw yn unig. Byddai i unrhyw wasanaeth o dan eu contract amser llawn sylfaenol yn cael ei ddiystyru. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau i ganiatáu i ddiffoddwyr tân gael mynediad at fuddion y cynllun digolledu sy'n cael eu cyfrifo ar sail hyd llawn y gwasanaeth, a chyfanswm y cyflog (p'un a yw'n bensynadwy ai peidio), o dan yr un cyflogwr.

---

<sup>1</sup> [2006] UKHL 8

## Casgliad

### 9. Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

9.1 Mae'r cynnig yn deillio o ymglyfreitha llwyddiannus a ddygwyd gan aelodau o Undeb y Brigadau Tân, ar ran diffoddwyr tân y system ar ddyletswydd yn ôl galw o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffatriol) 2000. Addaswyd y cynllun yn 2014 i ganiatáu aelodaeth ar ôl 2000. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i aelodau RDS cymwys brynu rhywfaint neu'r cyfan o'u gwasanaeth cyn ac ar ôl Ebrill 2000 hyd at 1 Ebrill 2022 yn y Cynllun wedi'i Addasu. Bydd hyn yn gymwys i'r rhai na chawsant gyfle i brynu eu **holl** wasanaeth blaenorol yn ystod ymarfer opsiynau blaenorol Matthews (a oedd yn gymwys o 1 Gorffennaf 2000 ymlaen yn unig).

9.2 Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) wedi'i lofnodi rhwng y Swyddfa Gartref, y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Undeb y Brigadau Tân a'r Gymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub. Er nad yw'r MoU yn gymwys i Gymru, rydym wedi defnyddio'r egwyddorion sydd ynddo, y cytunwyd arnynt gan gyflogwyr a'r Undebau, yn sail i'n cynigion ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân RDS yng Nghymru. Datblygwyd y cynigion gan ymgynghori â Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae ei aelodau'n cynnwys y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a'r pedwar undeb cydnabyddedig i ddiffoddwyr tân a chyrrff cynrychioliadol.

### 10. Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?

Lluniwyd y diwygiadau arfaethedig i gywiro a rhoi cyfle i ddiffoddwyr tân RDS brynu gwasanaeth ôl-weithredol oherwydd dyfarniad O'Brien. Bydd gan bob aelod yn y cwmpas fynediad cyfartal at y rhwymedi.

### 11. Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r diwygiadau arfaethedig yn anelu at ddileu triniaeth anghyfreithlon yn achos gweithwyr rhan-amser yn y cynllun pensiwn ac yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i hynny. Caiff y cynigion effaith dymor hir ar ddiffoddwyr tân cymwys gan y bydd y newidiadau yn newid eu hawliadau pensiwn galwedigaethol. Datblygwyd y cynigion ar y cyd â chyflogwyr diffoddwyr tân a chynrychiolwyr cyflogeion.

### 12. Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Er na fydd unrhyw fonitro ffurfiol, bydd effaith y rhwymedi yn parhau i gael ei thrafod ym Mwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru lle y gall cynrychiolwyr cyflogwyr a chyflogeion godi materion ynghylch y darpariaethau eu hunain a'u rhoi ar waith yn ymarferol. Mae Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru yn gyfrifol am roi cyngor, ar gais, i Weinidogion Cymru, rheolwyr cynlluniau a Byrddau Pensiynau Lleol mewn perthynas â gweinyddu a rheoli'r gwahanol gynlluniau pensiwn yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.